



Gwahodd teuluoedd bedydd i gofio dydd Gwener y Groglith

Mae plant yn edrych ymlaen at fyny y grog, wyau Pasg, cywion a gwneud hetiau adeg y Pasg. Mae dydd Gwener y Groglith yn fwy na Gŵyl Banc wrth gwrs. I eglwysi, mae'n amser arbennig iawn i gofio bod Iesu wedi marw ar groes i achub yr holl fyd.

Bydd llawer o blant yn dysgu rhywbeth am stori'r Pasg yn yr ysgol, ond mae llawer o deuluoedd yn poeni sut i egluro dydd Gwener y Groglith. Gall gwahodd teuluoedd bedydd i'r eglwys ar yr adeg hon helpu.

Dyma rai ffyrdd traddodiadol a newydd i ddweud wrth blant mai'r groes yw canolbwynt dydd Gwener y Groglith.

Byns y Grog

Er bod llawer o lefydd yn eu gwerthu gydol y flwyddyn, mae byns y grog yn cael eu bwyta'n draddodiadol ar ddydd Gwener y Groglith. Mae'r groes arny'n nhw'n ein hatgoffa am y groes lle bu Iesu farw, a'r sbeisys yn ein hatgoffa o'r sbeisys a ddefnyddiwyd wrth ei gladdu.

Mae llawer o siopau'n gwerthu byns y grog o gwmpas adeg y Pasg, ond mae yna lawer o ryseitiau gwyh ar-lein os hoffech wneud rhai gyda'ch gilydd.

Dewch o hyd i groes

Gofynnwch i blant a theuluoedd chwilota o amgylch yr eglwys a gweld faint o groesau y gallan nhw eu canfod. Hyd yn oed y tu allan i'r eglwys, anogwch y plant i weld croesau mewn llawer o lefydd gwahanol: fframiau ffenestri, olion awyrennau... bydd yna groesau ymhob man!

Mae llawer o bobl yn gwisgo croes fel gemwaith, a rhai'n cario croes fechan yn eu poced neu fag. Mewn bedydd, gall y gweinidog wneud arwydd y groes ar dalcen y plentyn – mae'r groes yn arwydd o berthyn i Dduw, ac o'r cariad sydd gan Dduw tuag atom. Felly mae dydd Gwener y Groglith yn amser da i ailgysylltu â bedydd y plentyn.

Un o'r adnodau enwocaf yn y Beibl yw, 'Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab...' (Ioan pennod 3 adnod 16). Mae rhieni newydd yn deall y math hwn o gariad yn fwy na neb mae'n siŵr: y cariad sy'n golygu y byddech chi'n gwneud unrhyw beth a phopeth er mwyn eich plentyn. Gallwn weddio "Ein Tad" gan fod Duw'n ein caru ni fel yna – marwolaeth Iesu ar y groes oedd Duw yn dangos ei fod yn barod i wneud unrhyw beth a phopeth er ein mwyn, gan ei fod yn ein caru ni.

Gwnewch Ardd y Pasg

Mae llawer o eglwysi'n creu gerddi Pasg felly gofynnwch i deuluoedd bedydd ddod i helpu. Gall hyn fod yn unrhyw beth o 'ardd' syml o botiau planhigion i rywbeth llawer mwy uchelgeisiol. Fel arfer, mae gardd y Pasg yn cynnwys bryn gyda thair croes arno, ac ogof/bedd (pot planhigyn llai ar ei ochr) gyda charreg yn pwyso yn ei erbyn. Mae rhai gerddi yn ychwanegu llwybr o raeon hefyd, a blodau'r gwanwyn fel briallu.

Gallwch wneud llun o ardd y Pasg eich hun os nad oes gennych chi'r deunyddiau i wneud un 3D o wrthrychau naturiol – torrwch y lluniau o'r catalogau hadau sy'n cael eu dosbarthu am ddim gan ganolfannau garddio lleol yn aml.

Pan fyddwch chi'n gwneud yr ardd rhowch y garreg o flaen yr ogof. Ar Sul y Pasg, gwahoddwch y teuluoedd yn ôl i'r eglwys i helpu i rollo'r garreg i un ochr (neu os mai llun wnaethoch chi, tynnwch e i ffwrdd) i'ch helpu i adrodd stori'r Pasg.